W 2
2058

Y

# DDEDDF FOESOL

# AR GAN.

U.N. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

A GYFANSODDWYD GAN

ROBERT EDWARDS, o Feirion.

*Cenir ar "Eluseni Meistres."*



Albion-Wasg:

CAERNARFON, ARGRAFFWYD GAN PETER EVANS,

*Heol y Castell.*

## Y Ddeddf Foesol, &c.

WEL dyma'r Gyfraith Foesol,
Y rheol yw a gaed gan Dduw,
Trwy Moses, mae yn hysbys,
O Sinai, gweddus yw,
Trwy fellt a swn taranau,
Ac udgorn nef,—gwrandewch y llef,—
Y daeth yr odiaeth Reol
Gain foddol, ganddo ef;
Ysgrifen Duw y duwiau
Ar ddwy o lechau hardd o lun;
Mae'n nodi yn gu yr hyn sy i ni
I dalu i Dduw a dyn:
Ni ellir yn ddiwallau,
Mae'n sicr, diau, garu Duw,
Heb garu'n bur, ar fôr a thir,
Ein c'mydog, eglur yw.

2 Di newid yw y Gyfraith,
Un berffaith yw, i ddynol ryw
O hyd yn rheol bywyd
I gyrraedd gwynfyd gwiw;
O'i chadw mae anrhydedd,
Tangnefedd 'nawr, tra ar y llawr,
Y'nghyd a theyrnas hefyd
Y nef a'i mwynfyd mawr:

X2052.3.27X

A hon yw'r Gyfraith Ddwyfol,
A rhinweddol i bob un;
Brenhinoedd mawr y ddaear lawr,
A'r gwaela' yn awr o ddyn:
Gwell ini gadw'r Gyfraith
Sy a'i gallu'n berffaith heb wahân,
Na myn'd i'r lle dan wg y Ne',
I fflamau uffern dân.

3 Myfi yw'r Arglwydd nefol,
Trag'wyddol Dduw holl ddynol ryw,
Creawdwr pawb yn mhob-man
Wyf fi, bechadur clyw;
Myfi a'th ddug di allan
O lydan wlad yr Aipht yn rhad,
O fawr gaethiwed caled
I dir 'r addewid fad:
Na foed it' dduwiau eraill
O fewn un gwersyll ond myfi,
Myfi yw Duw y meirw a'r byw,—
O erglyw arnaf fi;
Na wna gerfiedig ddelw
I'w haddoli heddyw mewn un wlad,
Os addoli hi yn lle Duw Tri,
Cai'th boeni 'n uffern frad.

4 Llun dim sy'n y nef uchod,
Nac isod le yn y ddaear gre',

Nac yn y dwfr o dani,
I'w 'ddoli 'n lle Duw 'r Ne';
Os delwau a addoli
Cai g'ledi ela mewn blinfyd bla,
Y'ngwlad yr anffyddloniaid,
Heb obaith gweled ha';—
O nac ymgryma iddynt,
Ac na was'naetha o honynt un;
Gwas'naetha ef, mae 'i fraich yn gref
I'th dynu i'r Nef dda 'i llun:
Myfi yw'r bywiol Arglwydd,
Dy Dduw tragywydd yn mhob lle,
Wyf Dduw y dòn, a'r ddaear gron,
Ac union Dduw y Ne'.

5 Myfi wyf Dduw eiddigus,
A gweddus Sanct ar fryn a phant,
'Rwy'n ymweled â phechodau
Y tadau ar y plant,
'Rwy'n ymweled hyd y drydedd
A'r bedwaredd lu cenhedlaeth ddu,
A hyny mewn modd pendant,
O'r rhai a'm casnât i;
'Rwy'n gwneuthur glân drugaredd,
Mewn gwirionedd, i filoedd maith
O'r rhai ag sy'n fy ngharu'n gu,
A pharchu 'Nghyfraith faith;
Sawl gadwant fy ngorch'mynion,
Cant etifeddu y dirion Ne',

Y'mhlith y saint mawr fydd eu braint
A'u llwyddiant yn y lle.

6 Na chymmer ei enw'n ofer,
'Mae'i dyner lef yn llenwi'r Nef,
Can's nid yw gwirion ganddo
'R hwn a'i cymmero ef;
Mae'n gwybod ein holl eiriau,
'N meddyliau maith, a'n gwamal waith,
Mae ef yn hollwybodol,
Anfeidrol ddwyfol iaith.
A chadw'r Sabboth sanctaidd
Yn dduwiolaidd i'r gweddaidd Dduw,
A pharcha ef wrth fodd y Nef,
Mae'n sylfaen gref i fyw;
Chwech o ddiwrnodau y gweithi,
Ac y gwnei dy waith i gyd,
Ond y seithfed dydd ei Sabboth sydd,—
Mae'n Llywydd ar y byd.

7 Ac ar y diwrnod hwnw
Na wna ddim gwaith, mae'n ddydd o saith,
Tydi dy hun, na'th feibion,
Na'th ferched gwiwlon chwaith,
Na'th weision, na'th forwynion,
Na'th dirion lu,—'r anifail cry',
Na'r dyn dieithr fyddo
Yn gwilio o fewn dy dŷ;

O herwydd mewn chwe diwrnod
Y gwnaeth e'r nefoedd uchod lawn,
A'r ddaear gron a wnaeth yn llon,
A'r môr yn gyson iawn;
Ef wnaeth y tân, a'r awyr,
A'r coed, a phob creadur byw;
Y llysiau wnaeth, a'u blodau maeth,
Yn doraeth o bob lliw.

8 A'u gwneud o ddiddim ddefnydd
Yn gaerydd gwych, pob gwlyb a sych,
A hyny mewn chwe' diwrnod,—
Cewch wybod yn y drych;
A'r seithfed dydd gorphwysodd,
Bendithiodd ef trwy'r byd a'r Nef,
Sancteiddiodd y dydd Sabboth,
Mewn gwiw-ddoeth, lan-ddoeth lef;
Fe ddylem ninau ei barchu
A'i ogoneddu oll i Dduw,
Am ei roddion c'yd i ni o hyd
Tra yn y byd yn byw;
Dydd yw i felys foli,
A dydd i garu'r Meddyg rhad,
Dydd ydyw hwn i dynu 'r pwn,
Os ceisiwn cawn iachâd.

9 Anrhydedd dod yn wastad,
Mewn cariad rhad, i'th fam a'th dâd.

Er estyn dy ddydd hawddgar
Ar y ddaear, yn ddiwâd,
Yr hon rydd yr Arglwydd cyfiawn
Mewn uniawn fryd i ti o hyd;
Sef anrhydeddu yr uwchaf
A'r isaf yn y byd.
Na ladd.—Na wna odineb,
Ond bydd mewn undeb a'r Gyfraith hon.
Na ladratta chwaith mewn unrhyw waith
Yn y greadigaeth gron.
Na ddywed gam dystiolaeth
Am dy gymmydog, berffaith frawd,
Brawd o'r un had, o Adda ein Tad,
Heb eiliad yn ei gnawd.

10 Oddiar dy hardd gymmydog
Na chwennych di ei wraig na'i dŷ,
Ond cadw 'r unig Reol,
'R hon gaed o'r nefoedd fry;
Na chwennych ddim a feddo
O'i eiddo 'fe mewn unrhyw le,
Na'i was yn wir, na'i forwyn,
Na'i ŷch, na'i asyn e'.
Wel dyma ddeg gorchymyn
A gaed gan Frenin Nef ei hun;
Yn Ddeddf i ni fe'i rhoed yn ffri,
Heb dorri o honynt un:
Ca'dd Adda ac Efa Gyfraith

Yn Eden unwaith i'w cadw yn fyw,
Am dorri hon trymhaodd ffon
Yn eirchion dyfnion Duw.

11 Ar ol i Adda bechu,
A thorri'n fyw orchymyn Duw,
Dangosodd ef Gyfreithiau
A Deddfau o bob rhyw:
Fe roddodd i'r Iuddewon,
Mewn union fryd, ddwy Gyfraith glyd;
Rhoes un yn Rheol wladol,*
Rinweddol yn y byd,
A rhoes y llall yn Rheol,†
O'r cysgodol aberthau llawn,
A hon oedd gre' o bethau'r lle
Y borau a'r prydnawn:
Ond rh'odd y deg gorchymyn
I bawb ei ddilyn i'r Nefoedd wén,
A'u rhoi yn wir mewn goleu clir
Ar fôr a thir, Amen.

*R. Edwards, o Feirion, a'i cânt.*

*Cyfraith Farnedigaethol. †Cyfraith Seremoniol.

☞ *Ni chaniateir i neb Argraffu y Gân hon, heb genad yr Awdwr.*

DIWEDD.

P. Evans, Argraffydd, Caernarfon.

NATIONAL LIBRARY OF WALES · SALISBURY LIBRARY